IS-BWYLLGOR DIOGELU'R CYHOEDD

DYDD MAWRTH, 4 RHAGFYR 2018

Yn bresenol: Cynghorydd Mackie(Cadeirydd)

Cynghorwyr Robson a/ac Wood

7 : GWAHARDD Y CYHOEDD

Mae Eitem 2 yn gyfrinachol ac wedi'i heithrio o'i chyhoeddi gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio o'r disgrifiad sydd ym mharagraff 14 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Gallai'r cyhoedd gael eu gwahardd o'r cyfarfod drwy benderfyniad y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 wrth i'r eitem hon gael ei thrafod.

PENDERFYNWYD: Gwahardd y cyhoedd ar gyfer eitem 2.

8 : MATERION CERBYD HACNI / LLOGI PREIFAT

PENDERFYNWYD – Ymdrin â'r materion canlynol fel y nodwyd:

(1) Gwrandawiad Disgyblu 1

Gofynnodd y gyrrwr i'r cyfarfod gael ei ohirio gan nad oedd wedi derbyn datganiadau gan dystion eraill. Roedd swyddogion wedi rhoi datganiadau o'r gyrrwr a'i gynrychiolydd a rhoddwyd amser iddynt ystyried y rhain, ni chymeradwywyd gohirio'r cyfarfod.

Esboniodd y tyst ei bod am fynd â'i mam yn y tacsi yn ei chadair olwyn drydanol, roedd y gyrrwr wedi gwrthod y tâl gan ddweud y byddai'r gadair olwyn yn torri ei ramp, dywedodd y fenyw y byddai'n ei adrodd am wrthod tâl. Honnodd y fenyw y daeth y gyrrwr yn ymosodol tuag ati.

Gyrrwr arall yn y safle tacsis oedd tyst arall a dywedodd y daeth y fenyw ato yn gofyn iddo fynd â hi a'i mam yn y gadair olwyn, gofynnodd iddi pam nad oedd hi wedi cymryd y tacsi cyntaf ac esboniodd y sefyllfa iddo. Yna aeth ef at y gyrrwr cyntaf gan ddweud na ddylai fod wedi gwrthod y tâl ac y byddai'n mynd i helynt, daeth y gyrrwr cyntaf yn ymosodol felly cymerodd yr ail yrrwr y teithwyr.

Yna rhoddodd y gyrrwr ei fersiwn o'r digwyddiadau gan ddweud y daeth y teithwyr ato, daeth allan o'i gerbyd a phan welodd y gadair olwyn, meddyliodd mai un a yrrir ar y ffordd oedd e, roedd yn un nad oedd wedi'i weld o'r blaen ac nid oedd yn siŵr a allai fynd ag ef yn ddiogel yn ei gerbyd, dywedodd fod diogelwch y teithiwr yn hollbwysig, dywedodd hefyd ei fod wedi bod yn gyrru ers 20 o flynyddoedd gan beidio byth â dod o flaen yr Is-bwyllgor.

Ystyriodd yr Is-bwyllgor yr holl wybodaeth a roddwyd yn ofalus a nodon nhw nad oedd y gyrrwr wedi cwblhau BTech, ac y cwblhawyd ei

Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Anabledd fwy na 15 o flynyddoedd yn ôl, ystyrion nhw mai ei ddyletswydd ef yw sicrhau ei fod yn diweddaru ei hyfforddiant ar gadeiriau olwyn a diogelwch a'i fod wedi gwrthod tâl.

Penderfyniad: Diddymu trwydded am 14 diwrnod a gorchmynnwyd i'r gyrrwr ddilyn cwrs BTech o fewn 3 mis.

(2) Gwrandawiad Disgyblu 2
Gohiriwyd y cais.

(3) Gwrandawiad Disgyblu 3

Gwrandawodd yr Is-bwyllgor ar ddatganiad y gyrrwr wrth iddo adrodd hanes y digwyddiadau, fel y nodir yn y gwaith papur.

Gofynnodd yr Is-bwyllgor i'r gyrrwr pam nad oedd wedi bod yn bryderus am ymddygiad y teithiwr ynghynt yn y sefyllfa, ac y gallai fod wedi rhoi gwybod i'r heddlu neu'r swyddfa tacsis. Dywedodd y gyrrwr, pan ddywedodd wrth y teithiwr i stopio'r ymddygiad, iddo stopio nes yr oedd yn gyrru ar y Ffordd Gyswllt pan nad oedd ganddo unrhyw le i stopio.

Roedd yr Is-bwyllgor yn bryderus na arafodd na stopiodd y gyrrwr ar y ffordd gyswllt a dywedodd y gyrrwr iddo arafu ac iddo am yrru'r teithiwr adref yn ddiogel.

Esboniodd cynrychiolydd y gyrrwr y sefyllfa yn dilyn yr arestio i'r Is-bwyllgor a dywedodd hefyd i'r gyrrwr gydweithredu'n llawn gyda'r heddlu, ateb yr holl gwestiynau a chael ei ryddhau heb gael ei siarsio yn dilyn y cyfnod mechnïaeth. Ychwanegodd nad oedd y gyrrwr wedi cael unrhyw gwynion yn y gorffennol. Roedd wedi dweud wrth y swyddfa tacsis pan gyrhaeddodd ei gartref ac roedd wedi esbonio'r digwyddiadau i'w wraig.

Trafododd yr Is-bwyllgor yr holl wybodaeth wedi'i derbyn a chredon nhw i'r gyrrwr roi sylw i'r arwyddion rhybuddio ar ddechrau'r daith a bod camfarn ddifrifol wedi bod.

Penderfyniad: Diddymu trwydded o ganlyniad i yrru heb ofal a sylw dyladwy a galluogi gweithgarwch rhywiol i ddigwydd mewn cerbyd trwyddedig wrth yrru.

(4) Gwrandawiad Disgyblu 4
Gohiriwyd am fis – ni ddaeth y gyrrwr.

(5) Cais 1

Ystyriodd yr Is-bwyllgor yr holl dystiolaeth o'i flaen. Esboniodd yr ymgeisydd fod yr holl gymeradwyaeth wedi dod i ben erbyn hyn ac mewn perthynas â'r wybodaeth ar y gwiriad GDG, roedd hyn i gyd pan oedd yn ifanc iawn, mae bellach wedi priodi ac wedi'i setlo ac yn byw bywyd gwahanol iawn nawr.

Penderfyniad: Cymeradwyo cais am Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni neu

Gerbyd Llogi Preifat.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.10 pm